Ysgol Glanrafon,
Yr Wyddgrug.

# ADRODDIAD BLYNYDDOL Y LLYWODRAETHWYR I'R RHIENI.

# *GOVERNORS' ANNUAL REPORT TO PARENTS.*

## 2019 – 2020.

## ADRODDIAD BLYNYDDOL Y LLYWODRAETHWYR I'R RHIENI - 2019-2020

Pleser yw cael cyflwyno Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr am y flwyddyn addysgol 2019 – 2020 i'ch sylw caredig, gan fawr obeithio y byddwch yn gweld ei gynnwys yn fuddiol a diddorol. Y mae wrth gwrs, oherwydd yr amgylchiadau presennol, o reidrwydd yn wahanol ac yn llawer byrrach. Ni chynhwysir yr Atodiadau am ganlyniadau asesiadau, targedau na phresenoldeb yr ysgol y tro hwn. O ganlyniad i Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion a ddaeth i rym ar Fai 4ydd. 2013, nid yw'n ofynnol bellach i Gyrff Llywodraethol gynnal cyfarfod blynyddol i rieni onibai bod 10% o'r holl rieni yn mynegi diddordeb i gynnal cyfarfod i drafod unrhyw fater yn ymwneud â'r ysgol. Oherwydd y cyfyngiadau presennol, ni fydd cyfarfod i drafod cynnwys yr Adroddiad hwn.

**1. SWYDDOGION.**
Clerc y Corff Llywodraethol yw Gareth Watson. Y cadeirydd yw Vanessa Leach a'r is gadeirydd yw Gron Morris. Os ydych angen cysylltu ag un o'r swyddogion hyn ar unrhyw adeg, dylid gwneud hynny trwy'r ysgol yn unig mewn llythyr neu trwy alwad ffôn (01352 700384) os gwelwch yn dda.

**2. RHESTR Y LLYWODRAETHWYR.**
Gweler Atodiad A.

**3. GWARIANT YR ARIAN A DDERBYNNIR GAN YR AWDURDOD ADDYSG LLEOL.**
Gweler Atodiad B (a).
**ARIAN GAD/GEY.**
Gweler Atodiad B(b) am Gynllun Gwariant arian GAD a GEY am y flwyddyn ariannol 2019 – 2020. Unig gostau a chynhaliaeth y Llywodraethwyr oedd cydnabyddiaeth tuag at gostau'r clerc.
Yn ogystal â chyllideb flynyddol yr ysgol (gweler Atodiad B(a) am y cyfansymiau), cyfrannodd Pwyllgor Ffrindiau Glanrafon yn hael trwy brynu offer digidol a thalu am anrhegion ffarwelio i ddisgyblion Blwyddyn 6. Diolchir i Bwyllgor y Ffrindiau am eu haelioni bob amser.
Defnyddiwyd incwm o'r Clybiau Ben Bore ac Ar Ôl Ysgol i dalu am amrywiaeth eang o offer a deunyddiau ychwanegol nad yw cyllideb arferol yr ysgol yn ddigonol i dalu amdanynt.

**4. CYFARFOD BLYNYDDOL 2019.**
Ni chynhaliwyd cyfarfod i drafod Adroddiad 2018-2019 am nad oedd unrhyw riant wedi mynegi diddordeb i gynnal un.

**5. LLAWLYFR YR YSGOL.**
Adolygwyd y llawlyfr am 2019-2020 yn unol â'r gofynion statudol, ac mae copiau o'r llawlyfr cyfredol ar gael unrhyw amser.

**6. RHESTR O DDYDDIADAU'R TYMHORAU AC AMSERAU'R SESIYNAU 2020-2021**
Gweler Atodiad C.

**7. <u>CYSYLLTIADAU'R YSGOL Â'R GYMUNED.</u>**

Trosodd, gwelir crynodeb o weithgareddau cymunedol yr ysgol hyd at Fawrth 20fed:

- Fel bob amser, bu'r disgyblion yn dathlu dyddiau nodedig ag iddynt gysylltiadau Cymreig – megis Diwrnod Owain Glyndŵr, Diwrnod Santes Dwynwen, Diwrnod T. Llew Jones, Diwrnod Miwsig Cymru a Gŵyl Ddewi (Eisteddfod Lenyddol).
- Gwahoddwyd y rhieni i Bnawn Cymdeithasol fel rhan o ddathliadau Diwrnod Owain Glyndŵr.
- Gwahoddwyd y rhieni hefyd i wasanaeth diolchgarwch Uned y Blynyddoedd Cynnar yn neuadd yr ysgol, a chynhaliodd Blynyddoedd 1 – 6 eu gwasanaeth hwy yn y prynhawn hefyd yn neuadd yr ysgol. Cafwyd cwmni aelodau o Gymdeithas y Pnawn Capel Bethesda yn y gwasanaeth hwnnw.
- Ymunodd y rhieni â ni yng nghyflwyniadau Nadolig holl ddisgyblion yr ysgol – sef gwasanaethau yr Unedau dan 7 a chyngerdd Y Llew Frenin gan ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2.
- Cynrychiolwyd yr ysgol yng ngwasanaeth Nadolig y Cymdeithasau Cymraeg yng nghapel Bethesda, yn seremoni troi goleuadau Nadolig y dref ymlaen ac ar Sgwâr Daniel Owen tra roedd Yr Wyddgrug yn cael ei beirniadu ar gyfer cystadleuaeth drefol genedlaethol. Gwahoddwyd côr yr ysgol i gymryd rhan yng Nghyngerdd Elusennol Uwch Siryf y sir ac yn seremoni agoriadol Gŵyl Fwyd Yr Wyddgrug. Daeth yr Uwch Siryf ei hun i gyflwyno tystysgrif i'r ysgol i ddynodi cyfraniad y côr i'r cyngerdd elusennol.
- Hyd at y cyfnod clo, cyfranogodd y disgyblion yn helaeth yng ngweithgareddau'r Urdd yn lleol a chenedlaethol trwy gyfrwng ymweliadau â'r gwersylloedd, cystadlaethau mewn amrywiaeth o feysydd a'r Eisteddfod.
- Bu nifer fawr o'n disgyblion yn cefnogi ac yn cystadlu gyda chryn lwyddiant yn Eisteddfod Treuddyn ym mis Tachwedd fel arfer.
- Mae'r disgyblion wedi elwa o ymweliadau gan siaradwyr gwadd, gweithdai amrywiol, ymweld â mannau o ddiddordeb yn lleol ac ehangach, a chynyrchiadau dramatig, a hynny i gyd yn fodd i gyfoethogi eu profiadau yn ystod y flwyddyn. Roedd nifer o'r ymweliadau hynny wedi'u trefnu'n gysylltiedig â thêmau gwahanol adrannau dysgu.
- Bu'r ysgol yn weithgar iawn yn codi arian at wahanol elusennau ac achosion da yn ystod y flwyddyn, sef fel a ganlyn – Jeans for Genes - £352.92, Plant mewn Angen - £450, Alzheimers - £1,059.58. Y Groes Goch a Cymdeithas Bywyd Gwyllt y Byd (ymgyrch Tân Awstralia) - £880. Cyfanswm = £2,742.50 Gwnaed cyfraniadau hael tuag at y Banc Bwyd lleol fel rhan o'n hymgyrch ar gyfer yr Ŵyl Ddiolchgarwch hefyd. Mae ein diolch yn fawr i bawb am eu haelioni bob amser.
- Ceir cysylltiad agos rhwng yr ysgol hon ac ysgolion Cymraeg eraill y sir gan gynnwys Maes Garmon. Cynhaliwyd hyfforddiant ar y cyd gydag ysgolion Cymraeg y sir yn ystod diwrnod o hyfforddiant mewn swydd wedi gwyliau hanner tymor mis Chwefror. Bu disgyblion Blwyddyn 5 yn cyfranogi mewn diwrnod o weithgareddau ar eu cyfer ym Maes Garmon.
- Cynhaliwyd Ffair Nadolig lwyddiannus ym mis Tachwedd, ac yn ystod y cyfnod clo, trefnodd Cadeirydd Pwyllgor Ffrindiau ymgyrch lwyddiannus i godi arian at yr ysgol.
- Mae gan yr ysgol gysylltiad agos a pherthynas dda gyda'r heddlu yn lleol, ac ymwela'r swyddog cyswllt yn dymhorol i roi sgwrs i ddisgyblion Blynyddoedd 2,4 a 6 – er mai yn nhymor cyntaf y flwyddyn yn unig y gwnaed hynny y flwyddyn hon.

- Bu i'r ysgol gyfrannu'n fisol i Bapur Fama, papur bro Cymraeg yr ardal, cyn y cyfnod clo a chaiff gwybodaeth cyson ei rannu am ddigwyddiadau ar gyfrif Trydar yr ysgol yn rheolaidd gan gynnwys y cyfnod clo. Ymddangosodd yr ysgol ar raglen Nadolig Dechrau Canu, Dechrau Canmol o'r Wyddgrug, ac ar Ffeil, rhaglen newyddion i blant.
- Mae gan yr ysgol berthynas weithio dda iawn gyda gwahanol asiantaethau addysgol o fewn y sir ynghyd â chonsortiwm GwE.
- Cynhaliwyd Pnawn Agored i'r rhieni yn ystod mis Medi a dau Bnawn Agored lle roedd cyfle iddynt weld a thrafod gwaith eu plant ym mis Chwefror. Cynhaliwyd Pnawn Agored i rieni y Meithrin + hefyd.
- Cyn i'r cyfnod clo ddigwydd, aeth gwahanol ddisgyblion/adrannau ar ymweliadau addysgol i amrywiol gyrchfannau megis Techniquest, y pantomeim blynyddol yn Theatr Clwyd, a'r Venue yn Llandudno i wrando ar Gerddorfa'r B.B.C.
- Cyflwynwyd sgwrs ar Ddiogelwch Tân ar gyfer disgyblion Blwyddyn 2 a 5.
- Bu disgyblion Uned y Blynyddoedd Cynnar yn ymwneud â phrosiect y Bwrdd Iechyd ynglŷn â sut i ofalu am eu dannedd gan ymarfer eu glanhau yn ddyddiol.
- Cynhaliwyd Ffair Lyfrau Saesneg gan gwmni Book People ar ddiwedd Tymor yr Hydref, ond yn anffodus, nid oedd y digwyddiad hwn mor llwyddiannus â'r arfer eleni.
- Bu cynrychiolwyr o fudiad Agathos yn cynnal gwasanaethau gyda disgyblion y Cyfnod Sylfaen, a chynnal Clwb Ribidires yn ystod yr awr ginio yn wythnosol ar gyfer disgyblion Blwyddyn 2. Bu disgyblion o Flwyddyn 3 yn cymryd rhan yn y Jamborama yng Nghapel Bethesda.
- Ym mis Medi, derbyniodd disgyblion Blwyddyn 6 oedd yn dymuno hynny, hyfforddiant ar fedrusrwydd beicio oedd yn arwain at brawf ar ei ddiwedd.

**8. DARPARIAETH CHWARAEON YR YSGOL.**

**Pêl droed-** Cynhaliwyd clybiau pêl droed wedi oriau ysgol ar gyfer disgyblion y ddau Gyfnod Allweddol ar bnawniau Llun a Iau, ynghyd â Chlwb Chwaraeon i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2.
Bu tîmau o'r ysgol yn cystadlu mewn amrywiol ornestau yn ystod y ddau dymor, gan gynnwys twrnament yr Urdd i dîmau cymysg, cystadleuaeth i ferched, cynghrair Bwcle/Wyddgrug a chystadleuaeth Ron Bishop a gêmau cyfeillgar yn erbyn ysgolion lleol.

**Pêl rwyd** - Cynhaliwyd clwb wythnosol ar bnawn Iau yn ystod y ddau dymor, dan ofal un o'r athrawon.
Bu tîm yr ysgol yn cystadlu'n llwyddiannus mewn amrywiol ornestau megis yr un lleol i Fwcle/Wyddgrug a'r Urdd yn rhanbarthol, gan wneud eu rhan yn arbennig o dda.

**Ffensio –** Cafwyd arddsangosiad ffensio ar gyfer disgyblion Cyfnod Allweddol 2, ac fel canlyniad, cynhaliwyd clwb cyn ysgol ar gyfer y disgyblion oedd yn dymuno datblygu sgiliau yn y maes hwnnw.

**Golff –** Derbyniodd disgyblion Blwyddyn 5 a 6 sesiwn flasu ar sgiliau golff yn ystod Tymor y Gwanwyn.

**Nofio -** Bu dosbarthiadau o ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn derbyn hyfforddiant nofio yn y Ganolfan Chwaraeon yn ystod y flwyddyn. Bu tîm o'r ysgol yn cystadlu yng ngala nofio rhanbarthol yr Urdd a llwyddodd rhai o'n cystadleuwyr i fynd ymlaen i rownd derfynol yr Urdd yng Nghaerdydd ddiwedd Ionawr a gwneud eu rhan yn arbennig o dda.

**Gymnasteg -** Aeth grŵp o ddisgyblion i gymryd rhan mewn gŵyl gymnasteg ar gyfer ysgolion Cymraeg y sir, a chafwyd cynrychiolaeth yng nghystadleuaeth Rhanbarthol yr Urdd.

**Clybiau chwaraeon** – Hyd at y cyfnod clo, darparwyd amrediad eang o glybiau chwaraeon ar gyfer gwahanol oedrannau o fewn yr ysgol yn rheolaidd.
Sicrheir fod pob plentyn yn derbyn dwy wers Addysg Gorfforol bob wythnos, gyda'r cyfan wedi'i amserlennu'n briodol i sicrhau trosraniad cywir ar gyfer y gwahanol weithgareddau.

**9. POLISIAU'R YSGOL.**

Addasir y polisiau cwricwlaidd a rheolaethol yn gyson er mwyn sicrhau eu cyfoesedd, ac fe'u cadarnheir gan y Corff Llywodraethol yn unol â'r rhaglen adolygu a ddarperir. Mae copi ohonynt ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg yn yr ysgol ar ôl gwneud trefniadau o leiaf dridiau ymlaen llaw. Mae copi llawn o weithdrefnau codi cŵyn yr ysgol ar gael i unrhyw un sy'n dymuno derbyn copi ohono trwy gysylltu â'r ysgol ymlaen llaw.

**10. TREFNIADAETH Y CWRICWLWM.**

Ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion 3-11 oed yw Ysgol Glanrafon. Mae'r rhai 3-7 oed yn ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen, lle y gwelir y Meithrin a'r Derbyn yn cyd-weithio fel Uned y Blynyddoedd Cynnar a disgyblion Blwyddyn 1 a 2 yn gweithio fel Uned dan 7.
Mae'r disgyblion yn trosglwyddo i Gyfnod Allweddol 2 yn saith oed. Yma eto, mae disgyblion Blwyddyn 3 a 4 a disgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn cyd-weithio'n agos. Golyga hyn bod cyd gynllunio manwl a chyson yn digwydd rhwng staff addysgu y blynyddoedd dysgu.
Sylfeinir y cwricwlwm yn y Cyfnod Sylfaen ar feysydd Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Diwylliannol, Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu, Datblygiad Mathemategol, Datblygu'r Gymraeg, Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd, Datblygiad Corfforol a Chreadigol. Rhoddir pwyslais ar ddatblygu sgiliau'r disgyblion trwy amrywiaeth o brofiadau a gweithgareddau ysgogol wedi'u seilio ar themâu.
Yng Nghyfnod Allweddol 2, caiff holl bynciau'r cwricwlwm – Cymraeg, Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth, Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, Hanes, Daearyddiaeth, Dylunio a Thechnoleg, Addysg Gorfforol, Cerddoriaeth ac Addysg Grefyddol eu haddysgu i'r disgyblion gyda'r canran priodol o amser wedi'i ddynodi i bob pwnc yn unol â'r gofynion statudol.
Rydym eisoes wedi dechrau cynllunio trwy'r ysgol yng ngoleuni chwe Maes a Phrofiad y cwricwlwm diwygiedig, Dyfodol Llwyddiannus, sef y Celfyddydau Mynegiannol, Iechyd a Lles, Dyniaethau, Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, mathemateg a Rhifedd a Gwyddoniaeth a Thechnoleg.
Mae Fframweithiau statudol Llythrennedd, Rhifedd a Digidol yn cael eu hintegreiddio i'r gweithgareddau cwricwlaidd.
Mae mwy o le bellach i lais y disgybl yn y broses o gynllunio'r themâu tymhorol.
Plethir y Fframwaith Llythrennedd, Rhifedd a Digidol i mewn i weithgareddau'r cwricwlwm.
Oherwydd yr amgylchiadau achoswyd gan bandemig COVID-19 eleni, ni chafodd disgyblion 7 ac 11 oed eu hasesu yn y pynciau craidd -Llythrennedd, Rhifedd a Phersonol a Chymdeithasol yn y Cyfnod Sylfaen, nac ychwaith mewn Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2. Ni chynhaliwyd y profion llythrennedd a rhifedd statudol ar gyfer disgyblion Blynyddoedd 2-6 eleni ychwaith.

**11. ADRODDIAD ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL 2019-2020**

Ar ddechrau'r flwyddyn addysgol, paratôdd yr ALNCo nodiadau ar bob disgybl sydd ar gofrestr ADY yr ysgol i'w rhannu gyda'r athrawon dosbarth yn ogystal ag athrawon llanw.

Yn ystod yr un diwrnod llawn a dau fore a ddynodwyd ar gyfer ADY, llwyddwyd eleni eto i gynnal arolygon mewnol, asesiadau a chyfarfodydd gydag asiantaethau allanol a chyda rhieni. Cafodd disgyblion o Flwyddyn 1 i 6 gymorth (mewn grwpiau bach) gan yr ALNCo gyda'u llythrennedd mewn stafell ddynodedig yng nghorff yr ysgol.
Digwyddodd yr addysgu dros ddiwrnod a hanner, gyda hanner diwrnod o weinyddu/asesu/monitro a chynnal cyfarfodydd. Yn y sesiynau monitro, cafwyd cyfle i edrych ar sut mae'r gwahanol dargedau sy'n cael eu llunio i wahanol ddisgyblion gan asiantaethau allanol, yn gweithio a'u plethu at ein targedau ni, fel ysgol.
Cafwyd cyfarfod unwaith bob hanner tymor (tri cyn y cyfnod clo) gyda grŵp o ALNCOs ysgolion Yr Wyddgrug a'r Seicolegydd Addysg – i drafod strategaethau/ffordd ymlaen ar gyfer un neu ddau disgybl penodedig ar y tro. Defnyddiwyd argymhellion y grŵp yma fel cynllun gweithredu gan y Seicolegydd Addysg. Cafodd pob rhiant wahoddiad i drafod targedau penodol eu plentyn gyda'r athro/awes dosbarth i roi mewnbwn i'r Rhaglenni Addysg Unigol.
Yn ogystal â hyn, cafwyd arolwg mewnol o'r holl ddisgyblion sydd ar y gofrestr yn ystod y flwyddyn, lle roedd cyfle i'r athrawon dosbarth drafod y disgyblion gyda'r ALNCo, i dynnu rhai o'r gofrestr a chynnwys rhai eraill o'r newydd i dderbyn cefnogaeth. Yn ystod y cyfnod clo, roedd cysylltiad trwy alwadau ffôn gyda'r rhieni i gynnig sgwrs a chymorth. Cafwyd cyfarfod dros TEAMS gydag athrawes ADY yr ysgol uwchradd i drafod unrhyw ddisgyblion Blwyddyn 6 ar y gofrestr, cyn iddynt symud ymlaen.

**12. <u>DARPARIAETH AR GYFER ANGHENION PENODOL.</u>**

Darperir yn briodol ar gyfer pob plentyn yn ddiwahan yn yr ysgol hon. Ni wahaniaethir ar sail lliw, iaith, anabledd na chefndir ethnig neu gymdeithasol. Caiff pob disgybl, waeth beth fo'i allu ef/hi yr un cyfleoedd i ddatblygu i'w llawn potensial. Darperir yn wahaniaethol ar gyfer disgyblion yn unol â'u galluoedd o fewn y dosbarthiadau. Mae Cynllun Hygyrchedd cyfredol ar gael gan yr ysgol, ac mae'r adeilad yn hygyrch ar gyfer cadeiriau olwyn, a cheir dau doiled penodedig ar gyfer yr anabl yn yr ysgol, ynghyd â man parcio dynodedig tu allan.

**13. <u>DEFNYDD O'R GYMRAEG YN YR YSGOL.</u>**

Ysgol benodedig Gymraeg yw Ysgol Glanrafon – yn un o bump ysgol gynradd ac un uwchradd Gymraeg yn Sir y Fflint. Y Gymraeg yw iaith cyfathrebu ac addysgu'r ysgol hon ac erbyn y bydd y disgyblion yn gadael yr ysgol, byddant oll yn gwbl ddwyieithog ac yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg. Derbyniwyd tystysgrif i ddynodi statws Aur y Siarter Iaith gan gynrychiolwyr o blith ein Llysgenhadon Iaith.

**14. <u>DARPARIAETH CYFLEUSTERAU TOILEDAU'R YSGOL</u>**

Caiff holl flociau toiledau'r ysgol eu glanhau yn ddyddiol. Bydd safon y glanweithdra yn cael ei fonitro'n gyson er mwyn sicrhau bod y safon yn cael ei gynnal. Oherwydd y gwaith a wnaethpwyd dros y blynyddoedd, mae holl flociau toiledau'r ysgol bellach wedi'u hadnewyddu.

# ***GOVERNING BODY'S ANNUAL REPORT TO PARENTS 2019 - 2020***

*It is with pleasure that the Governors' Annual Report for the 2019-2020 academic year is presented for your kind attention, hoping that you will find its content useful and interesting. It is of course, due to the curent situation, considerably different and shorter than usual. The Appendices showing assessment results, school targets or attendance are not included this time. As a result of the Standards and Organisation of Schools Act, operational from May 4th. 2013, it is no longer an obligation for Governing Bodies to hold an annual meeting unless 10% of the whole school's parents express an interest to have a meeting to discuss any matter regarding the school. Due to the present restrictions, there will be no meeting to discuss the content of this Report.*

## ***1. OFFICIALS.***

*The clerk to the Governing Body is Gareth Watson. The chairperson is Vanessa Leach and the vice chair person is Gron Morris. If you need to contact any of the officials at any time, this should be done via the school only by means of a letter or phone call (01352 700384)please.*

## ***2. LIST OF GOVERNORS.***

*See Appendix A*

## ***3. EXPENDITURE OF MONEY RECEIVED FROM THE LOCAL EDUCATION AUTHORITY.***

*See Appendix B(a)*

***SEG/PDG GRANT.***

*See Appendix B(b) for the 2019-2020 financial year's SEG/PDG Expenditure.*
*The only expenditure for the year was a honorarium for the clerk.*
*As well as the annual budget for the school (see Appendix B(a) for the breakdown), the Friends of the School committee made a substantial contribution by purchasing additional thechnological equipment and buying leaving gifts for Year 6 pupils. The committee is thanked for their generosity at all times.*
*Income from the Morning and After School clubs was used to pay for a variety of additional equipment that the school's annual budget is not sufficient to pay for.*

## ***4. 2019 ANNUAL MEETING.***

*No meeting was held to discuss the 2018-2019 report as no parent had expressed a desire to have one.*

## ***5. SCHOOL PROSPECTUS.***

*The prospectus was reviewed for 2019-2020 in accordance with statutory legislation, and copies of the current prospectus is available in school at all times.*

## ***6. LIST OF TERM DATES AND SCHOOL SESSIONS.***

*See Appendix C.*

*7. **LINKS WITH THE COMMUNITY.***

*To follow, is a summary of the school's community links up to March 20th. –*

- *As always, the pupils celebrated noteable Welsh cultural activities such as Owain Glyndŵr's Day, St. Dwynwen's Day, T. Llew Jones' Day,Welsh Music Day and St. David's Day (with a Literary Eisteddfod).*
- *Parents were invited to a Social Afternoon as part of the Owain Glyndwr Day's celebrations.*
- *Parents were also invited to the Early Years Unit's Harvest Thanksgiving service in the school hall, and the Years 1-6 pupils held their service also in the school hall in the afternoon. Members of Bethesda Chapel's Afternoon Society attended this service.*
- *Parents joined us for all the pupils' Christmas presentations – the Foundation Phase services and Key Stage 2 concert presenting the Lion King show.*
- *The school was represented at the Mold Welsh Societies Christmas service at Bethesda Chapel and at the turning on of the Mold Christmas lights ceremony as well as performing in the Daniel Owen Centre whilst Mold was judged in a National town competition. The school's choir was invited to take part in the County's High Sheriff concert and during the opening ceremony of the Mold Food Festival. The High Sherrif herself came to school to present a certificate to commemorate the choir's contribution to her charity concert.*
- *Up until the lockdown, the pupils participated widely in Urdd activities locally and nationally by visiting the various residential centres,taking part in a variety of competitions and the Eisteddfod*
- *A large number of our pupils competed at Treuddyn Eisteddfod as usual in November, with much success.*
- *The pupils have benefited from visits by guest speakers, various workshops, visits to places of interest both locally and wider areas, dramatic presentations - which have enrichened their experiences during the year. Many of the activities were in association with the various themes for the teaching departments.*
- *The school was very active in collecting money towards various charities and worthy causes during the year, which are as follows – Jeans for Genes - £352.92, Children in Need - £450, Alzheimers - £1,059.58, Red Cross and World Wildlife Organisation (Australian Bush Fires appeal) - £880. Total = £2,742.50. Generous donations were also made to the local Food Bank as part of our Harvest Thanksgiving appeal. Everyone is thanked for their generosity at all times.*
- *The school has a close link with the county's other Welsh medium schools, including Maes Garmon. An in service training day was held for all the Welsh primary schools following the 2019 February half term holiday. Year 5 pupils participated in a day of activites prepared for them at Ysgol Maes Garmon.*
- *A successful Christmas Fair was held in November, and during the lockdown, the chairperson of the Friends of Glanrafon organised a successful event to raise money for the school.*
- *The school has a close relationship, and good communication with the local police, and the school's police liaison officer visits the school on a termly basis to address the Years 2, 4 and 6 pupils – although this happened during the first term only this year.*
- *We contribute on a monthly basis to Papur Fama, the Welsh community newspaper and regular information regarding school activities is posted on the school's Twitter*

*account. School appeared on S4C's Dechrau Canu, Dechrau Canmol, and on Ffeil, a Welsh news programme for children.*

- *The school has a very good working relationship with the various educational agencies within the county as well as the GwE consortium.*
- *An Open Afternoon was held in September and two more in February, where there was an opportunity for parents to see and discuss their children's work (in February). An Open Afternoon was held for the Meithrin + parents also.*
- *Before the lockdown, various classes/departments went on educational outings to destinations such as Techniquest, the pantomime at Theatr Clwyd and the Venue in Llandudno to listen to the B.B.C. Orchestra.*
- *An illustrated talk was given on Fire Safety to Years 2 and 5 pupils.*
- *The Early Years Unit's pupils were involved in a project organised by the Health Board regarding the care of teeth and how to brush them correctly on a daily basis.*
- *An English Book Fair organised by the Book People was held at the end of the Autumn Term, but unfortunately, this event was not as successful as usual this time.*
- *Representatives of Agathos have held services with the Under 7's pupils regularly and organised the Ribidires Club weekly for Year 2 pupils during the year. Year 3 pupils participated in the Jamborama at Bethesda Chapel.*
- *At the end of September those pupils in Year 6 who wished to do so, participated in the cycling proficiency training leading to the test at the end of the course.*

## 8. *GAMES AND SPORTING ACTIVITIES.*

***Football***- *Football clubs were held after school hours for pupils of both Key Stages on Monday and Thursday afternoons, as well as a Sports Club for Key Stage 2 pupils.*
*Teams from school competed in various competitions during the year, including the Urdd tournament for boys and girls, a girls competition, Mold/Buckley league and the Ron Bishop competitions.*

***Netball*** - *An after school club was held on Thursday afternoons during the first two terms organised by one of the teachers.*
*The school's team participated in various tournaments such as the local Mold/Buckley and the regional Urdd competitions, and did very well in these competitions.*

***Fencing –****A fencing display was given to Key Stage 2 pupils, and as a result, an early morning club was held for those pupils who showed an interest in attending.*

***Golf –*** *A taster session showing golf skills was held for Years 5 and 6 pupils*

***Swimming*** - *Classes of Key Stage 2 pupils received swimming lessons in the town's Sports Centre during the year. A team from school participated in the county Urdd gala and some competitors were successful in going forward to the final in Cardiff held at the end of January, and did so to a high standard.*

***Gymnastics*** - *A group of pupils participated in a gymnastics festival for the county's Welsh medium schools and we were represented by a pupil at the Regional Urdd competition*

***Sports Clubs*** *– Up until the lockdown, a variety of sports clubs for pupil of various ages were regularly held in school.*
*It is ensured that every child participates in two Physical Education lessons every week, with all lessons being appropriately time-tabled for the various activities.*

**9.** ***SCHOOL POLICIES***

*Curricular and managerial policies are regularly modified and ratified by the Governing Body as required. Copies of the policies are available at school if requested, requiring at least three days notice. A full copy of the Complaints Procedure is available to anyone who contacts the school again 3 days before hand to ask for a copy.*

**10.** ***CURRICULUM ORGANISATION.***

*Ysgol Glanrafon is a designated Welsh medium primary school for 3-11 year old pupils. The 3-7 year old pupils are in the school's Foundation Phase, where the Nursery and Reception pupils work as an Early Years Unit and Years 1 & 2 pupils who work as an Under 7's Unit.*

*The pupils transfer to Key Stage 2 when they are 7 years old. Here again Years 3 & 4 pupils and Years 5 & 6 pupils work very closely. This means that detailed and constant planning occurs between the staff of all the teaching years.*

*The Foundation Phase curriculum is based on Personal and Social Dvelopment, Welfare and Cultural Diversity, Language skills, Literacy and Communication, Mathematical evelopment, Welsh Development, Knowledge and Understanding of the world and Creative and Physical Development. Emphasis is placed on developing the pupils' skills by means of motivating experiences and activities based on various themes.*

*In Key Stage 2, all of the curriculum subjects – Welsh, English, Mathematics, Science, Information Technology, History, Geography, Design and Technology, Physical Education, Music and Religious Education are taught ,with the allocated times for each subject meeting the statutory requirements.*

*We have already begun to plan, across the school, in accordance with the six areas of Learning and Experience of the reformed curriculum, Successful Future, which are Expressive Arts, Health and Wellbeing, Humanities, Languages, Literacy and Communication, Mathematics and Numeracy and Science and Technology.*

*The statutory Literacy, Numeracy and Digital Frameworks are intergrated into the curricular activities.*

*The pupils themselves are now more central in the process of developing the termly themes.*

*Due to the circumstances caused by the COVID-19 pandemic, 7 and 11 year old pupils were not assessed in the core areas – Literacy, Numeracy and Personal and Social skills for the Foundation Phase and not in Welsh, English, Mathematics and Science at the end of Key Stage 2. The statutory reading and numeracy tests for Years 2-6 pupils were not held this year either.*

***11. ADDITIONAL EDUCATIONAL NEEDS REPORT 2019-2020.***

*At the beginning of the curent academic year, the ALNCO prepared notes for the class and supply teachers of those pupils on the register.*

*Within the one full day and two mornings allocated for ALN, we succeeded again this year to have internal reviews, assessments and meetings with external agencies and parents. Pupils from Years 1 – 6 were supported (within small groups) for their literacy skills by the ALNCo in the designated room within the school.*

*The group teaching took place over a day and a half, and half a day of administration/assessing/monitoring and meetings. In the monitoring sessions, there*

*was an opportunity to see how the various targets set for individual pupils by external agencies work and interweave into our targets, as a school.*
*A meeting was held every half term (three before the lockdown) with a group of ALNCOs from the Mold schools and the educational psychologist – to discuss strategies/way forward for one or two children from every school each time. The suggestions given at these meetings were used as an action plan by the Educational Psychologist. Each parent had an opportunity to discuss their child's specific targets with the class teacher and have an input into the Individual Education Programmes.*
*As well as this, an internal audit of all the pupils on the school's ALN register was held during the year. During the reviews, there was an opportunity for the class teachers to discuss the pupils with the ALNCo, to take some off the register and to include some additional ones to receive support.*
*During the lockdown, contact was made with parents to offer any additional help. A virtual meeting on TEAMS was held with the secondary school ALNCO to discuss Year 6 pupils on the register, before the summer.*

**12. *PROVISION FOR SPECIFIC NEEDS.***
*Suitable provision is made for all pupils. We do not discriminate on the basis of colour, language, disability or ethnic or social background. All pupils, whatever their ability, are given the same opportunity to develop to their full potential. We offer differential provision according to ability within classes.*
*A current Accessibility Plan exists at school. The building is accessible for the disabled, and two specific toilets are available for their use, and also dedicated parking spaces outside.*

**13. *THE USE OF WELSH IN SCHOOL.***
*Ysgol Glanrafon is a designated Welsh medium school – one of five primary and one secondary Welsh schools in Flintshire. The language of communication and teaching in this school is Welsh, and by the time the pupils leave the school at 11 years of age, they are totally billingual, being fluent in both Welsh and English. A certificate to denote the school's Language Charter Gold Award was presented to a representative of our Language Ambassadors.*

**14. TOILET FACILITIES.**
*All of the school's toilet blocks are cleaned on a daily basis. The standard of hygiene is regularly monitored in order to ensure that the standard is maintained. Due to the work carried out over the years, all of the school's toilet blocks have by now been renovated.*

(Atodiad/*Appendix* A)

**Aelodaeth y Corff Llywodraethol – *Governing Body membership 2019-2020***

Apwyntiwyd/*Appointed.*

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cadeirydd/*Chair.* | Vanessa Leach | 11/16 | Cynrychiolydd y Rhieni – *Parent representative* |
| Pennaeth/Head : | Llinos Mary Jones | | |
| | Einir Huws | 10/16 | Cynrychiolwyr athrawon |
| | Eilir Roberts | 10/19 | *Teachers' Representatives* |
| | Nia L.Hughes | 10/19 | Cynrychiolydd staff nad ydynt yn dysgu/*Non teaching staff rep* |
| | Vanessa Brown | 11/16 | Cynrychiolydd y Rhieni/ |
| | Laura Edwards | 11/16 | *Parents' Representatives* |
| | Sarah Reeves | 11/19 | " " |
| | Nia Ellis | 11/17 | " " |
| | Ceri Townsend | 11/17 | " " |
| | | | Cymunedol/*Community* |
| | Gron Morris | 01/17 | " " |
| | Mair Searson | 11/16 | " " |
| | Marion Antrobus | 11/16 | " " |
| | Steve Townley | 12/17 | A.A.Ll./ *L.E.A* |
| | Haydn Bateman | 11/19 | A.A.Ll/*L.E.A* |
| | Gareth Watson | | Clerc/*Clerk* |

**DATGANIAD O FWRIAD YR YSGOL –**
***THE SCHOOL'S MISSION STATEMENT.***

Cyrraedd y safonau uchaf posibl, mewn ysgol weithgar, ofalgar, hapus a Chymreig, lle y dangosir parch at blant a phobl, gan roi iddynt oll gyfle teg i ddatblygu i'w llawn potensial.
*Attain the highest possible standards in a hard working, caring and Welsh school, where respect is shown to children and adults, giving everyone a fair chance to devlop to their full potential.*

**287 YSGOL GLANRAFON**
**Datganiad Ariannol 2019/2020 *Financial out turn***

| **Pennawd Cyllideb** ***Budget heading*** | **Cyllideb/** ***Budget*** **2019-2020** | **Gwariant/** ***Expenditure*** **2019-2020** | **Gwahaniaeth/ Difference +/- 2019-2020** |
|---|---|---|---|
| Balans o/*Balance from* 2018/2019 | 47,906 | | +47,906 |
| Cyflogedig *Employees* | 827,638, | 1,154,305 | -326,667 |
| Safle/*Premises* | 83,250 | 52,190 | +31,060 |
| Cyfanswm cludiant/*Total transport costs* | - | 1,012 | -1,012 |
| Cyflenwadau/ *Supplies* | 47,106 | 33,802 | +13,304 |
| Cinio ysgol/*School meals* | | 60,983 | 60,983 |
| Cytundebau Lefel Gwasanaeth/*Service Level agreements* | 42,332 | 52,203 | -9,871 |
| Transition | - | | - |
| Uned/Adnawdd ADY – *ALN Resource Unit* | 97,996 | | 97,996 |
| Cyfanswm incwm/*Total income* | - | 233,007.86 | 233,008 |
| **CYFANSWM** ***TOTAL*** **2015/2016** | **1,146,228** | **1,121,486** | **24,742** |

Atodiad/*Appendix* B (b)

**GWARIANT GRANTIAU GAD/GEY AM 2019 – 2020 - *SEG/PDG SPENDING BUDGET.***
**(05.04.19-31.03.20)**

**CYFANSWM YR ARIAN A DDERBYNIWYD/*TOTAL AMOUNT OF GRANTS RECEIVED* = £19,550 (GAD - *PDG*) £16,956 (GEY-*SEG*) CYFANSWM - *TOTAL* = £36,506**

| | |
|---|---|
| **BLAENORIAETH/*PRIORITY* 1 –**<br>Datblygu dealltwriaeth ymhellach o'r cwricwlwm diwygiedig a pharhau i ddatblygu'r cynllunio'n fwriadus ar ei gyfer.<br>*Develop our understanding of the revised curriculum further and continue to intentionally plan for its implementation.* | £5,000 Talu am staff cyflenwol i alluogi athrawon i gynllunio a gweithio ar agweddau o'r cwricwlwm diwygiedig. *Payment for supply staff to enable teaching staff to plan and work on aspects of the revised curriculum.*<br>£3,500 am adnoddau ychwanegol/*for additional resources.*<br>£250 am bapur a llun gopïo ychwanegol/*additional paper and photocopying.*<br><br>CYFANSWM/*TOTAL* = £8,750 |
| **BLAENORIAETH/*PRIORITY* 2 –**<br>Creu cyfleoedd i herio'n disgyblion mwyaf galluog i gyrraedd y lefelau/deilliannau uwch mewn Iaith a Mathemateg.<br>*Create opportunities to challenge the more able pupils to attain the higher levels/outcomes in Language and Mathematics.* | £22,178 Cyflogi staff ychwanegol i gynorthwyo o fewn dosbarthiadau yng Nghyfnod Allweddol 2. *Employ additional members of staff to work within Key Stage 2 classes.*<br>£1,500 am adnoddau ychwanegol/*for additional resources.*<br>£500 am bapur a llun gopïo ychwanegol/*additional paper and photocopying.*<br><br>CYFANSWM/*TOTAL* = £24,178 |
| **BLAENORIAETH 3 –**<br>Datblygu ac ymhelaethu ar Lais y Disgybl ym mhrosesau a dulliau addysgu'r ysgol.<br>*Develop and enhance the Pupil's Voice in the school's processes and teaching methods.* | £1,000 am adnoddau ychwanegol/*additional resources.*<br>£2,500 costau cyflenwol/*supply costs*<br><br>CYFANSWM/*TOTAL* = £3,500 |

**CYFANSWM Y GWARIANT/*TOTAL SPEND* = £36,428**

**GWARIANT GAD/*PDG EXPENDITURE* = £19,550**

**GWARIANT GEY/*SEG EXPENDITURE* = £16,878**

Atodiad/*Appendix* C.

## DYDDIADAU TYMHORAU 2020 – 2021 *TERM DATES.*

**Tymor yr Hydref – *Autumn Term* 2020.**

01&02.09.20 Diwrnodau hyfforddiant mewn swydd – *In service training days.*
03&04.09.20 Diwrnodau Paratoi – *Preparation Days.*
07&08.09.20 Ysgol yn ail agor – Derbyn/Bl.2,4&6 – *School re-opens for Reception/Years 2,4&6*
09&10.09.20 Ysgol yn ail agor – Derbyn/Bl.1,3&5 – *School re-opens for Reception/Years 1,3 & 5.*
11.09.20 Ysgol yn ail agor i bawb – *School re-opens for all the pupils.*
23.10.20 Ysgol yn cau ar gyfer y gwyliau hanner tymor – *School closes for the half term holiday.*
02.11.20 Ysgol yn ail agor wedi gwyliau'r hanner tymor – *School re-opens after the half term holiday.*
18.12.20 Ysgol yn cau am wyliau'r Nadolig – *School closes for the Christmas holiday*

**Tymor y Gwanwyn – *Spring Term* 2021**

04.01.21 Diwrnod hyfforddiant mewn swydd – *In service training day.*
05.01.21 Ysgol yn ail agor – *School re-opens.*
12.02.21 Ysgol yn cau am wyliau hanner tymor – *School closes for the half term holiday.*
22.02.21 Ysgol yn ail agor ar ôl y gwyliau hanner tymor – *School re-opens after the half term holiday.*
26.03.21 Ysgol yn cau am wyliau'r Pasg – *School closes for the Easter holiday.*

**Tymor yr Haf – *Summer Term* 2021**

12.04.21 Diwrnod hyfforddiant mewn swydd – *In Service training day*
13.04.21 Ysgol yn ail agor – *School re-opens*
03.05.21 Gŵyl y Banc – gwyliau undydd – *Spring Bank holiday.*
28.05.21 Ysgol yn cau am wyliau hanner tymor – *School closes for the half term holiday.*
07.06.21 Ysgol yn ail agor wedi gwyliau'r hanner tymor – *School re-opens following the half term holiday.*
16.07.21 Ysgol yn cau am wyliau'r haf – *School closes for the summer Holiday.*
19&20.07.21 Diwrnodau hyfforddiant mewn swydd – *In service training days.*

## **SESIYNAU’ R YSGOL – *SCHOOL SESSIONS* 2020-2021**

Er mwyn ein galluogi i gadw pawb yn ddiogel yn ystod cyfnod pandemig COVID-19, mae’r amseroedd dechrau, egwyl, cinio a mynd adref wedi’u darwahanu, i reoli faint o ddisgyblion sydd gyda’i gilydd ar yr un pryd, ac i wahanu’r Swigod oddi wrth ei gilydd cymaint â phosib. Trefniadau dros dro yw y rhain ar hyn o bryd.
*In order that everyone can be kept as safe as possible during the COVID-19 pandemic, the start, break, lunch and home times have been staggered, to limit the number of pupils together at the same time, and to seperate the Bubbles as much as is possible. These are temporary arrangements at present.*

| | |
|---|---|
| 8.50 | Ysgol yn dechrau i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 – *School starts for Key Stage 2 pupils.* |
| 9.00 | Ysgol yn dechrau i ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen – *School starts for Foundation Phase pupils.* |
| 9.10 | Ysgol yn dechrau i ddisgyblion y Meithrin – *School starts for the Nursery pupils.* |
| 10.15-10.30 | Egwyl y bore –*Morning break* - Uned dan 7 – *Under 7’s Unit.* |
| 10.30-10.45 | Egwyl y bore – *Morning break* – Blwyddyn/*Years 3 & 4.* |
| 10.45 – 11.00 | Egwyl y bore – *Morning break* – Blwyddyn/*Years* 5 & 6. |
| 11.45-12.30 | Amser cinio – Cyfnod Sylfaen – *Lunch time – Foundation Phase.* |
| 12.15 – 1p.m. | Amser cinio – Cyfnod allweddol 2 – *Lunch time – Key Stage 2.* |
| 1.30 – 1.40 | Egwyl y pnawn – Derbyn – *Afternoon Break time – Reception.* |
| 1.45 – 1.55 | Egwyl y pnawn – Blwyddyn 1 & 2 – *Afternoon Break time – Years 1&2* |
| 2.00-2.10 p.m. | Egwyl y pnawn – Blwyddyn 3 & 4 – *Afternoon Break time –Years 3&4.* |
| 2.15 – 2.25 | Egwyl y pnawn – Blwyddyn 5 & 6 – *Afternoon Break time – Years 5&6.* |
| 2.55 p.m. | Ysgol yn gorffen – Cyfnod Sylfaen – *School finishes – Foundation Phase.* |
| 3.05 p.m. | Ysgol yn gorffen – Cyfnod Allweddol 2 – *School finishes – Key Stage 2.* |